ARHOLIAD MYNEDIAD

IONAWR 2020

# DRAMA AC ASTUDIAETHAU THEATR

**Amser - 1.5 awr**

**Dylai'r ymgeiswyr ateb DAU gwestiwn**

---

1. Gan gyfeirio at o leiaf **UN** ddrama, trafodwch beth ydych chi'n ei ddeall yw ystyr y gair 'abswrdiaeth'.

2. Trafodwch waith unrhyw ymarferydd (cyfarwyddwr, dramodydd, dylunydd neu berfformiwr) y llwyfannwyd eu gwaith y tu allan i'r gofodau theatr traddodiadol. Yn eich barn chi, beth yw manteision a heriau penodol gwaith o'r math hwn?

3. Trafodwch waith **DAU** grŵp neu gwmni theatr y mae gennych ddiddordeb yn eu gwaith. Nodwch yr hyn sy'n nodedig am eu dulliau perfformio.

4. Pe byddech chi'n gyfarwyddwr, pa ddrama hoffech chi ei chyfarwyddo a pham? Trafodwch pa themâu yr hoffech ymdrin â hwy mewn perfformiad o'r ddrama.

5. 'Beth yw diben theatrau?' Trafodwch.

6. Gan roi o leiaf **DWY** enghraifft o gynyrchiadau rydych wedi'u gweld yn ddiweddar, trafodwch y ffyrdd y mae dylunio sain a goleuo wedi cyfrannu at eu heffaith a'u hawyrgylch cyffredinol.